

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
4 Medi 2017 yn Festri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch.

Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 4 September 2017 in Llwynpiod Chapel Vestry at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol ac yn benodol Mrs Gwenfiar Owen a oedd wedi'u phenodi i gynrychioli Ward Penuwch.

The Chair welcomed everyone to the monthly meeting, especially Mrs Gwenfiar Owen who now represents Penuwch ward.

Presennol/Present

Paul Rooke, Rhian Turner, Emyr Jones, Myrddin James, Daniel Thomas, Eirian Jones, Gwenfiar Owen, Beryl Evans, John Evans a Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Gerwyn Ebenezer, Gwilym Evans a Cyng Dafydd Morse.

Datgan Diddordeb/Declaring an Interest – Neb/ No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Eirian Jones ac eiliwyd gan Daniel Thomas
Eirian Jones proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Daniel Thomas.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from the Minutes

- Clerc wedi archebu'r boc diffib i fod yn '2000 range – unlocakable 500m x 400m x 250m' am £540 gan gynnwys TAW a courier.
- *Clerk has ordered a defibrillator box, '2000 range – unlocakable 500m x 400m x 250m': £540, including VAT and courier.*
- Clerc wedi anfon enwau'r Cynghorwyr a manylion cyfarfodydd i'r papur bro Y Barcud.
- *Clerk has sent the names of the Councillors and details of meetings to the community paper, Y Barcud.*
- Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod y lori sbwriel wedi anghofio gwacio'r bin baw cwn yn Stags Head.
- *Ceredigion County Council have confirmed that the refuse lorry forgot to empty the dog rubbish bin in Stags Head.*
- Clerc wedi derbyn cadarnhad oddi wrth Eirian Jones, Pen swyddog cynorthwyol Cynnal a Chadw Adeiladau mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw'r cysgodfan bws yn Stags Head ond ei fod yn cadarnhau os nad yw'r to asbestos i weld wedi'i ddifrodi mewn unrhyw ffordd, nad oes yna broblem efo'r to asbestos ar hyn o bryd ond bod angen cadw llygad arno yn fanwl.
- *Clerk has received confirmation from Eirian Jones, the assistant head officer for Buildings' Maintenance, that the bus shelter in Stags Head is the responsibility of the Community Council. He confirms that, if the asbestos is seen not to have been damaged in any way, there isn't a problem with the roof asbestos at the moment, but a close watch needs to be kept on it.*

Gohebiaeth/Correspondence

- Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddi wrth Vaughan Evans am y rhodd a dderbyniodd Capel Llwynpiod yn ddiweddar.
- *Letter of thanks from Vaughan Evans for the donation Llwynpiod Chapel received recently.*
- Cyhoeddwyd bod cyfarfod cyffredinol blynyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn 30 Medi 2017 yn Llanellwedd rhwng 9.30-4.00yp – Dim gweithrediad.
- *Annual General Meeting of One Voice Wales will be held on Saturday, 30 September 2017 in Builth Wells, 9.30 – 4pm. No action.*

Cyfrifon/Accounts

- Defib Store Ltd £540.00
- CCF Ltd £19.80 (hadau porfa i'r parc)/ (grass seed for the park)
- ROSPA £88.20 (arolwg y parc)/ (survey of the park)
- Cyflog y Clerc / Salary of Clerk £477.71 (5 mis) (5 months)
- Online Playgrounds £21.50 (buffer i glwyd y parc) (buffer for the park's gate)
- Rhan o'r gost i logi neuadd Goffa Tregaron ar gyfer hyfforddiant 'Côd ymddygiad', oddeutu £5
- *Part of the cost for hiring Memorial Hall, Tregaron, for Code of Conduct training, about £5*

Cynnigwyd i'w dalu ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.

Payment was proposed by Cllr Beryl Evans, and this was seconded by Cllr Rhian Turner.

Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council

- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cyng Catherine Hughes yn annog pob Cyngor Tref a Chymuned i gwblhau'r cwrs e-ddysgu Cadw Gofalwyr mewn Cof ar-lein trwy gysylltu â Martin Gillard o'r Cyngor Sir Ceredigion am linc i'r holiadur. Soniwyd hefyd gan fod nifer fawr o ofalwyr wedi'u cofrestru am y gwasanaeth yma, bod hi'n hanfodol fod y ffyrdd yn cael eu graenu a'i chadw ar agor gorau gallent er mwyn bod y gofalwyr yn gallu edrych ar ôl yr henoed heb boeni am sefyllfa'r ffyrdd.
- *Letter received from Cllr Catherine Hughes urging all Community and Town Councils to complete the e-learning course Keeping Carers in Mind on-line, by contacting Martin Gillard from the County Council for a link to the questionnaire. It was noted that very many Carers had registered for this service, and that it was essential that roads be kept gritted and open so that Carers could look after the elderly without being worried about the situation of the roads in bad weather.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Nodyn atgoffa i'r Cyngorwyr oedd â diddordeb mewn mynychu sesiwn hyfforddi ar y côd ymddygiad a'r rôl o'r pwyllgor moeseg safonol, cynhelir yr hyfforddiant yn Neuadd Goffa Tregaron ar nos Lun 18eg o Fedi 2017 am 7yh. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu tuag at gostau llogi'r neuadd rhwng y 7 cyngor cymuned/tref a fyddai'n mynychu'r sesiwn.
- *Note to remind Councillors who are interested in attending the training course on the Code of Conduct and the role of the standard ethics committee, that the course is held at Memorial Hall, Tregaron, on Monday, 18 September at 7pm. It was agreed unanimously to contribute towards the costs of hiring the venue with the other 7 community/town councils who would be attending the session.*
- Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cinio blynyddol eleni, eitem i'w ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf.
- *The possibility of hosting an annual dinner this year was discussed, item to be placed on next month's agenda.*
- Derbyniwyd cwyn fod drain wedi cwmpo i mewn ar bwys Cilcert Penuwch lawr am Henbant.
- *Complaint received that a drain has collapsed near Cilcert, Penuwch, towards Henbant.*
- Soniwyd fod yna blant o bentref Llangeitho yn hongian o'r gofeb milwr yn y pentref, clerch i wneud ymchwil efo'r Lleng Prydeinig, o'r berchnogaeth y milwr.
- *It was noted that some children from Llangeitho village had been up to mischief around the world war memorial, clerk to make enquiries with the British Legion to see who owns it.*
- Soniwyd bod angen torri ychydig nol ar y goeden ywen sydd ar y cylchfan pentre' Llangeitho, Cyng Daniel Thomas yn cynnig gwneud y gwaith angenrheidiol, diolchwyd iddo am ei barodrwydd. Hefyd soniwyd bod angen paentio'r wal oddi amgylch y goeden ywen ond cytunwyd i drafod y gwaith yma yn y Gwanwyn.
- *It was noted that the yew tree near the roundabout in Llangeitho needs cutting back a little. Cllr Daniel Thomas offered to do the necessary work, and he was thanked for his willingness to do so. Also, it was noted that there was need to paint the wall which surrounds the yew tree, and it was agreed to discuss this matter in the spring.*
- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Cyng Rhodri Evans nad oedd cyflwr y ffordd tu allan i Cnwc y Barcud yn ddigon drwg i'w tharmacio i gyd.
- *Confirmation was received from Cllr Rhodri Evans that the condition of the road outside Cnwc y Barcud did not warrant tarmac at the moment.*
- Gofynnir am wasanaeth y sweeper ym Mhlwyf Llanbadarn Odwyn.
- *The sweeper was requested for Llanbadarn Odwyn parish.*
- Derbyniwyd cwyn fod yna annedd o ryw fath wedi'u hadeiladu heb ganiatâd cynllunio yn Tynrhos Uchaf, Llangeitho, gofynnir i'r Clerch gysylltu â Mr Huw Davies, Swyddog Gorfodi Cynllunio'r Cyngor Sir Ceredigion i ymchwilio mewn i'r mater.
- *Complaint was received that some sort of abode has been built without planning permission at Tynrhos Uchaf, Llangeitho; clerk to contact Mr Huw Davies, Planning Enforcement Officer with Ceredigion County Council, to investigate the matter.*
- Twll yn y ffordd rhwng Garej Bysiau Brodyr James, Llangeitho ac Aeron View.
- *Pothole in the road between James Buses garage, Llangeitho and Aeron View.*
- Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am y digwyddiadau diweddar yn y gymuned drwy fis Gorffennaf a mis Awst.
- *Verbal report given by PCSO John Evans about the events in the community during July and August.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and Location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Capel Penuwch ar 2 Hydref 2017 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry on Monday, 2 October 2017, at 8p.m.